LATHROP, RICHARD (bu farw 1764), gwerthwr llyfrau ac argraffydd yn Amwythig.

Enw: Richard Lathrop
Dyddiad marw: 1764
Priod: Mary Lathrop (née Hesketh)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwerthwr llyfrau ac argraffydd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Llewelyn Davies

Nid oes sicrwydd ei fod yn Gymro, ac nid oedd ei gynnyrch Cymreig - llyfrau a baledi - mor helaeth ag eiddo Thomas Durston a Stafford Prys. Dechreuodd ei fusnes ei hun fel argraffydd yn 1738 (gweler *Cambriae Suspiria In Obitum ... Reginae Carolinae ... Authore Tho. Richards*). Cafodd ryddfreiniad y ' Combrethren of Saddlers ... ' ar 22 Mehefin 1739. Priododd, 14 Chwefror 1737/8, Mary Hesketh. Claddwyd ef 1 Tachwedd 1764.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*

J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (1908-11)

Llewelyn C. Lloyd, 'The Book Trade in Shropshire,' yn *Transactions of the Shropshire Archaeological and Natural History Society*, 1935, 1936

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734287

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu